# Polisi tynnu data oddi ar y we

Ein polisi ar gyfer tynnu data oddi ar y we ar food.gov

## Cefndir

Mae defnyddio ffynonellau data amgen yn hanfodol er mwyn i’r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) gyflawni ei nod, sef diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn perthynas â bwyta bwyd (gan gynnwys y risgiau sy’n deillio o’r ffordd y caiff ei gynhyrchu neu ei gyflenwi) a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Tynnu data oddi ar y we (web scraping) yw un o'r ffynonellau data amgen hyn a ddefnyddir yn aml i ategu'r ffynonellau data presennol. Felly, pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod gweithgareddau tynnu data oddi ar y we yn cael eu cynnal yn dryloyw, yn foesegol ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r arferion a'r gweithdrefnau y bydd yr ASB yn eu dilyn wrth dynnu data oddi ar y we, fel arfer o HTML. Diffinnir tynnu data oddi ar y we, neu ‘web scraping’, fel casglu data yn awtomatig o'r we gan ddefnyddio darn o feddalwedd neu raglen.

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn nodi'r arferion a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i weithwyr yr ASB, staff dros dro a staff achlysurol, ac unrhyw gontractiwr, ymchwilydd neu bartner academaidd sy'n gwneud gwaith i'r Asiantaeth neu'n gweithredu ar ein rhan, eu dilyn wrth dynnu data oddi ar y we.

Wrth asesu sefydliadau allanol a allai dynnu data oddi ar wefannau ar ran yr ASB, naill ai trwy weithgareddau busnes fel arfer neu ar sail ad hoc, bydd y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio fel canllaw i lywio gweithgareddau sicrwydd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod strwythurau llywodraethu addas ar waith wrth gasglu a phrosesu data a gesglir trwy weithgareddau tynnu data.

Sylwch nad yw'r ddogfen hon yn cynnwys defnyddio Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (APIs) ac mae'n berthnasol i'r ASB yn unig.

## Adolygiad Nesaf

Ein nod yw sicrhau bod y canllawiau yn gyfredol a chynnal adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod y canllawiau hyn yn parhau i fod yn berthnasol. Y dyddiad adolygu nesaf sydd wedi’i drefnu ar gyfer y canllawiau hyn yw 15 Ebrill 2022.

## Cydymffurfiaeth

Rhaid i holl staff yr ASB gydymffurfio â'r polisi hwn mewn unrhyw brosiect sy'n cynnwys tynnu data oddi ar y we. Gall methu â chydymffurfio arwain at gamau disgyblu yn unol â pholisi disgyblaeth y sefydliad.

## Datganiad polisi

Mae'r ASB yn cynnal gweithgarwch tynnu data oddi ar y we at ddibenion ei swyddogaethau a nodir yn Neddf Safonau Bwyd 1999.

Dyma sail gyfreithiol yr ASB ar gyfer gweithgarwch tynnu data o'r fath:

Mae adrannau 8, 10, 11 a 21(1) Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi pwerau i'r ASB i gael a chasglu gwybodaeth, trwy gynnal arsylwadau, am faterion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd neu fuddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ffynonellau bwyd, safleoedd bwyd, busnesau bwyd neu weithrediadau masnachol sy'n cael eu cynnal mewn perthynas â bwyd.

Wrth gyflawni'r gweithgarwch tynnu data oddi ar y we a ddisgrifir yma, mae'r ASB yn arfer ei phwerau statudol ac yn gweithredu o fewn ei hawdurdod statudol. Mae adran 19 Deddf Safonau Bwyd 1999 hefyd yn caniatáu i'r ASB rannu gwybodaeth ble fyddai gwneud hynny er budd y cyhoedd.

I'r graddau bod yr wybodaeth sy'n cael ei thynnu yn nodi unigolion byw, mae'r gweithgarwch tynnu data oddi ar y we yn cynnwys prosesu rhywfaint o ddata personol.  Bydd yr ASB yn prosesu data o'r fath yn unol â darpariaethau Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr Undeb Ewropeaidd (UE) 2016/679 a Deddf Diogelu Data'r Deyrnas Unedig (DU) 2018 (DPA).

Mae'r ASB yn credu bod y prosesu yn angenrheidiol o fewn swyddogaeth tasg gyhoeddus yr ASB (Erthygl 6.1(e) GDPR) ac, i'r graddau y mae data troseddol yn berthnasol, yn angenrheidiol i'r ASB fel awdurdod cymwys at ddibenion gorfodi'r gyfraith er budd y cyhoedd a/neu ar gyfer honiadau cyfreithiol (GDPR Erthygl 9.2(f) a (g) ac Atodlen 2 Rhan 1 y DPA ac Atodlen 2 Rhan 1, adran 5 ac Atodlen 7) neu mae'n debygol ei fod wedi'i roi yn y parth cyhoeddus gan yr unigolion dan sylw (Erthygl GDPR 9.2(e)).

Bydd yr ASB yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol i arwain ein gweithgareddau tynnu data oddi ar y we:

- Ceisio lleihau'r baich ar gwefannau lle mae'r data'n cael ei dynnu
- Cadw at yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a monitro'r sefyllfa gyfreithiol a moesegol sy'n esblygu
- Diogelu'r holl ddata personol

# Manylion Polisi

## Ceisio lleihau'r baich ar y tudalennau gwe lle mae'r data'n cael ei dynnu

Gall defnydd gormodol o dynnu data oddi ar y we fod yn faich, a gall gorddefnyddio ar un dudalen we gael effaith niweidiol ar weithrediad y wefan. Er mwyn osgoi sefyllfaoedd o'r fath, byddwn ni'n dilyn yr arferion hyn, lle bo hynny'n berthnasol, a gweithredu o fewn terfynau ein swyddogaethau statudol bob amser:

- Asesu ddulliau casglu data eraill, fel API's, cyn ystyried tynnu data oddi ar y we
- Parchu cyfyngiadau tynnu data a orfodir trwy ddogfennau fel y Protocol Eithrio Robotiaid (Robots.txt) a Thelerau ac Amodau'r Safle os a phan fo hynny'n bosibl
- Oedi tynnu data oddi ar dudalennau ar yr un parth
- Cynnwys amser segur rhwng ceisiadau
- Cyfyngu dyfnder y chwilio (crawl) o fewn y parth penodol
- Wrth dynnu data oddi ar sawl parth, gweithredu chwilio cyfochrog (parallelised crawling) i leihau ceisiadau olynol i'r un parth
- Tynnu data ar adeg o'r dydd pan nad yw'r wefan yn debygol o fod yn profi traffig trwm – er enghraifft, yn gynnar yn y bore neu gyda'r nos
- Optimeiddio'r strategaeth tynnu data oddi ar y we er mwyn lleihau nifer y ceisiadau i barthau
- Casglu rhannau o dudalennau sy'n ofynnol at y diben cychwynnol yn unig

- Cynnwys Llinyn Asiant Defnyddiwr i wahaniaethu’r ASB oddi wrth ddefnyddwyr eraill.

Nid yw'r rhestr hon o arferion gorau yn gynhwysfawr a bydd yr ASB yn ymdrechu i gynnal safon uchel wrth dynnu data oddi ar y we trwy fonitro a gweithredu arferion gorau.

## Cadw at ddeddfwriaeth berthnasol a monitro'r sefyllfa gyfreithiol a moesegol sy'n esblygu

Mae'r ASB yn deall bod y sefyllfa gyfreithiol sy'n ymwneud â thynnu data oddi ar y we yn gymhleth ac yn esblygu'n barhaus; a chymharol ychydig o gynseiliau cyfreithiol perthnasol sy’n bodoli ar gyfer cynnal gweithgareddau o'r fath. Bydd yr ASB yn parhau i fonitro'r sefyllfa gyfreithiol wrth iddi esblygu ac yn diwygio ein dull yn unol â hynny. Yn yr un modd, mae'r ASB yn cydnabod y gall tynnu data oddi ar y we a phrosesu data a gesglir yn y modd hwn arwain at amrywiaeth o faterion a heriau moesegol. Mae ymdrechion yn mynd rhagddynt i ddatblygu fframwaith ymarferol ar gyfer ystyried a lliniaru risgiau moesegol posibl a briodolir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol i dynnu data oddi ar y we.

Rhaid i'r rhai sy'n dymuno tynnu data oddi ar y we gofnodi a chyfiawnhau'r rhesymeg, y rhesymu cyfreithiol a moesegol a buddion tynnu’r data. Defnyddir y rhesymeg hon fel sail i geisio cymeradwyaeth gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth a chaiff ei graffu yn ystod y cam asesu i sicrhau aliniad parhaus â deddfwriaeth berthnasol. Gweler adran 9 am ragor o fanylion am hyn.

## Diogelu’r holl ddata personol

Mae'r ASB wedi ymrwymo'n llawn i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a sicrhau bod data personol yn cael ei ddefnyddio'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw. Mae diogelu data yn bwysig iawn i'r ASB, nid yn unig am ei fod yn hanfodol i waith ein sefydliad, ond hefyd oherwydd ei fod yn sicrhau ein bod ni’n diogelu preifatrwydd unigol ac yn cynnal hyder y cyhoedd yn yr Asiantaeth.

## Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

| Swyddogaeth | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Staff yr ASB sy’n tynnu data oddi ar y we | • Cydymffurfio â'r polisi tynnu data oddi ar y we<br>• Cadw at y broses tynnu data y cytunwyd arni a sefydlwyd ar draws yr Asiantaeth |
| Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch (KIMS) | • Rhannu’r polisi a gwneud staff ym mhob adran yn ymwybodol ohono fel rhan o Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth yr ASB yn gyffredinol |

| | |
|---|---|
| Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth | • Cael ei hysbysu am weithgareddau tynnu data oddi ar y we arfaethedig gan yr ASB a’u cymeradwyo<br>• Cyfiawnhau gweithgareddau tynnu data oddi ar y we na chaiff eu cymeradwyo |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | • Rhoi cyngor ar faterion cyfreithiol cyfredol a thirwedd sy'n esblygu os oes angen |

## Llywodraethu

| | |
|---|---|
| **Perchennog Polisi** | Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch (KIMS) |
| **Cymeradwyo Polisi** | Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth |
| **Monitro Cydymffurfiaeth** | Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch a Phennaeth Adrannau |
| **Adolygu a Gwella** | Timau Rheoli a Diogelwch, a Data a Gwybodaeth |

## Canllawiau cysylltiedig

### Camau Tynnu Data oddi ar y We

#### Cais i Dynnu Data oddi ar y We

- Dylai unedau busnes yr ASB sy'n dymuno tynnu data oddi ar y we gysylltu â'r Penaethiaid Data a KIMS cyn gynted â phosibl ar ôl nodi'r gofyniad
- Rhaid hefyd atodi cais tynnu data oddi ar y we wedi'i gwblhau i'w adolygu
- Nodwch y gallai’r ASB dynnu data oddi ar eich gwefan er mwyn pennu dichonoldeb. Ni fydd yr ASB yn storio unrhyw ddata yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr ASB yn sicrhau bod y broses hon yn parhau i fod yn unol ag adran 6 y ddogfen hon; fodd bynnag, ni fydd yn destun gwerthusiad gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth

#### Gwerthuso

- Bydd y Pennaeth Data a thimau KIMS yn rhoi gwybod i’r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth am y cais newydd a darparu'r ddogfen gais
- Bydd y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth yn gwerthuso'r ddogfen gais ac yn gwirio a oes modd tynnu data oddi ar y we

**Log Tynnu Data Oddi ar y We**

Bydd y Pennaeth Data a thimau KIMS yn diweddaru'r log tynnu data canolog gyda'r gweithgareddau cymeradwy ac yn rhoi gwybod i'r uned fusnes eu bod yn gallu dechrau tynnu’r data oddi ar y we. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y lefel gywir o ddiwydrwydd dyladwy (due diligence) yn cael ei neilltuo i bob prosiect a bod yr holl weithgareddau'n cael eu cofnodi at ddibenion archwilio ac atebolrwydd yn y Log.

**Tynnu Data oddi ar y We**

Gall gweithgareddau tynnu data oddi ar y we gychwyn a dim ond yn unol â'r Polisi Tynnu Data oddi ar y We a'r arferion gorau cyfatebol y byddant yn cael eu cynnal.

### Manylion Cysylltu

Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

## Rhestr o dermau

### Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API)

O ran tynnu data oddi ar y we, gall perchennog gwefan adeiladu API i ganiatáu mynediad hawdd at ddata a gedwir ar y wefan heb yr angen i adeiladu system tynnu data oddi ar y we.

### Dyfnder y Chwilio

Mae dyfnder y chwilio yn cyfeirio at ba mor bell i mewn i hierarchaeth tudalen ar y wefan y mae’r person sy’n chwilio yn cael mynediad ato. Hafan gwefannau yw brig yr hierarchaeth hon (lefel 0), mae tudalennau sydd wedi'u cysylltu o'r hafan ar lefel 1 tra bod tudalennau sydd wedi'u cysylltu o dudalennau lefel 1 yn lefel 2 ac ati. Felly mae cyfyngu dyfnder y chwilio yn golygu cyfyngu ar ba lefel y bydd y person sy’n chwilio yn gallu cael mynediad ati.

### Iaith Marcio Hyperdestun

Yr iaith farcio safonol ar gyfer diffinio strwythur tudalennau gwe. Defnyddir elfennau HTML i ddweud wrth y porwr sut i arddangos cynnwys tudalen we.

### Amser segur

Amser segur, neu amser cysgu, yw'r saib rhwng pob cais a wneir i'r wefan gan y person sy’n tynnu’r data.

### Chwilio cyfochrog (Parallelising the Crawling)

Mae’r system sy’n chwilio’n gyfochrog yn cynnal sawl proses ochr yn ochr gyda’r nod i gynyddu cyfraddau lawrlwytho i'r eithaf a lleihau gorbenion (overheads) tynnu data oddi ar y we. Er

enghraifft, os yw gwefannau A a B yn cynnwys nifer o dudalennau gwe, yna gallai chwilio cyfochrog ddal tudalen o wefan A, ac yna tudalen o wefan B ac ati. Os nad yw chwilio'n gyfochrog, yna mae'r gorbenion ar un wefan yn debygol o gynyddu'n sylweddol.

## Protocol Eithrio Robotiaid

Gelwir hefyd yn ffeil Robots.txt. Mae hon yn safon a ddefnyddir gan wefannau i gyfathrebu â'r rheiny sy'n chwilio'r we a robotiaid gwe eraill. Yn y bôn, mae'n darparu dull i berchnogion gwefannau gyfyngu rhan o'u gwefannau rhag tynnu data oddi ar y we neu gyfyngu ar dynnu data'n gyfan gwbl i ddim ond tynwyr data ardystiedig fel peiriannau chwilio. Mae rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn ar gael ar wefan robots.txt

## Llinyn Asiant Defnyddiwr (User Agent String)

Mae Llinyn Asiant Defnyddiwr yn ddarn o destun wedi'i deilwra y gellir ei ychwanegu at broses tynnu data sy'n caniatáu i berchennog y wefan adnabod gweithredwr a/neu bwrpas y gweithgarwch tynnu data oddi ar y we. Gellir addasu hyn wrth greu'r system tynnu data oddi ar y we ac fe'i defnyddir yn aml er mwyn sicrhau tryloywder.

## Chwiliwr y We (Web Crawler)

Mae chwiliwr y we, y cyfeirir ato weithiau fel pry cop, yn bot rhyngrwyd sy'n pori'r We Fyd-Eang yn systematig at ddibenion casglu gwybodaeth. Yr enghraifft fwyaf cyffredin o hyn yw peiriannau chwilio fel Google sy'n defnyddio chwilwyr gwe i gadw eu canlyniadau chwilio yn gyfredol.

## Tynnu Data oddi ar y We

Diffinnir tynnu data oddi ar y we, neu 'web scraping', fel casglu data yn awtomatig o'r we gan ddefnyddio darn o feddalwedd neu raglen.